GALW AM GEISIADAU

Pensaernïaeth yng Nghymru

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion

1 – 8 Awst 2020

DESIGN COMMISSION FOR WALES
COMISIWN DYLUNIO CYMRU

RSAW

Yn **Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion** cynhelir arddangosfa o bensaernïaeth ddiweddar yng Nghymru, gyda chefnogaeth **Comisiwn Dylunio Cymru** a **Chymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru**.

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth benseiri neu grwpiau o benseiri i ddangos adeiladau gyda dyddiad eu cwblhau ymarferol rhwng 1 Ionawr 2017 a 1 Mawrth 2020.

Yn ogystal, ystyrir y ceisiadau, sydd i'w cynnwys yn yr arddangosfa, ar gyfer y ddwy wobr glodwiw ganlynol:

Y Fedal Aur am Bensaernïaeth

(Gwobr Goffa Alwyn Lloyd)
Cefnogwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru

Rhoddir replica arian-ac-aur o'r fedal aur i'r pensaer neu benseiri sy'n gyfrifol am adeilad neu grŵp o adeiladau a gwblhawyd rhwng 1 Ionawr 2017 a 1 Mawrth 2020, a gymeradwywyd i'r Eisteddfod fel y gorau.

Plac Teilyngdod

Er mwyn anrhydeddu prosiectau llai o safon uchel.

Gwahoddir penseiri i gyflwyno prosiectau newydd neu rai a adnewyddwyd sy'n bodloni'r gofynion canlynol:

a) adeiladwyd yng Nghymru
b) cyfrif terfynol hyd at £750,000
c) cwblhawyd rhwng 1 Ionawr 2017 a 1 Mawrth 2020
ch) yn harddu'r amgylchedd

Detholir ceisiadau 2020 gan Niall Maxwell (Rural Office for Architecture, Caerfyrddin) a Zoë Quick (Pensaer ac Addysgwr, Llanidloes).

Nod yr arddangosfa yw codi proffil pensaernïaeth yng Nghymru, drwy gyflwyno darluniau a modelau, wedi'u dethol am eu safon a'r modd y maent yn cyfleu cyfoeth pensaernïaeth a'i werth i ddiwylliant Cymru.

Gwireddir Pensaernïaeth yng Nghymru mewn partneriaeth â **Chomisiwn Dylunio Cymru** a **Chymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru**.

Enw'r Adeilad:

Cyfeiriad:

Enw'r Pensaer:

Enw'r Cyswllt: Ffôn:

E-bost:

Enw a Chyfeiriad y Perchennog:

Dyddiad Cwblhau Ymarferol: | |

Gwerth y Prosiect: £

Ffurflen Gais

Anfoner

- Ffi o £25 (sieciau'n daladwy i Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2020)
- Ffurflen gais wedi'i chwblhau
- Darluniau allweddol, cynlluniau lleoliad, cynllun safle, cynllun llawr, toriadau, modelau
- Printiau – dim mwy na 10
- Disgrifiad byr o'r prosiect
- Amlen gyda chyfeiriad a stamp arni ar gyfer dychwelyd y cais

Dyddiad cau: 1 Mawrth 2020

ANFONER Y CAIS AT:

Swyddog Celfyddydau Gweledol,
Swyddfa'r Eisteddfod,
40 Parc Tŷ Glas, Llanisien,
Caerdydd, CF14 5DU
029 2074 1709 / 07787 550017
yllecelf@eisteddfod.org.uk